# Tasg 4

# Cartref gwyrdd?

Pa mor wyrdd yw'ch cartref chi?

1. Llenwch y ffurflen hon. Gofynnwch i aelod o'r teulu os nad ydych chi'n siŵr.



**Arolwg o'ch cartref**

| Ticiwch os oes gennych chi …: | | **Manylion** |
|---|---|---|
| • ynysiad da yn y waliau a'r to | ☐ | |
| • paneli solar | ☐ | |
| • tyrbin gwynt yn yr ardd | ☐ | |
| • gwydro dwbl neu wydro triphlyg | ☐ | |
| • porfa / glaswellt ar y to | ☐ | |
| • toiled sy'n compostio gwastraff | ☐ | |
| • goleuadau LED | ☐ | |
| • metr dŵr i gofnodi faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio | ☐ | |
| • biniau ailgylchu | ☐ | |
| • ailgylchu papur | ☐ | |
| • ailgylchu tuniau | ☐ | |
| • ailgylchu gwydr | ☐ | |
| • ailgylchu plastig addas | ☐ | |
| • ailgylchu bwyd | ☐ | |
| • ailddefnyddio pethau – nodwch beth yn union yn y golofn **Manylion.** | ☐ | |
| • gofalus gyda thrydan – nodwch sut yn y golofn **Manylion.** | ☐ | |
| • gofalus gyda dŵr – nodwch sut yn y golofn **Manylion.** | ☐ | |

2. Gwnewch holiadur i weld pa mor wyrdd yw cartrefi aelodau'r dosbarth.

- Yn gyntaf, trafodwch pa fath o gwestiynau rydych chi'n mynd i'w gofyn.
- Yna, gwnewch yr holiadur a'i ddefnyddio yn y dosbarth.

Wrth ateb, gallwch chi ddefnyddio'r wybodaeth yn yr arolwg.

3. Gwnewch graffiau neu siartiau cylch i ddangos y canfyddiadau.

Ysgrifennwch ddarn i egluro'r canfyddiadau.

4. Gallai llawer o bobl wneud eu cartrefi'n fwy gwyrdd - yn fwy ecogyfeillgar. Sut?

Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau wrth i chi siarad.

Yna, paratowch ddarn sy'n rhoi cyngor i bobl ar sut i wneud eu cartrefi'n fwy gwyrdd, e.e. erthygl i'r papur bro, hysbyseb ar gyfer y teledu, cyflwyniad Pwerbwynt, darn ar gyfer gwefan ac ati.